WG35 S 87

# LLINELLAU COFFADWRIAETHOL

AM Y BRAWD TEILWNG

# DAFYDD JOHN,

DIACON PARCHUS YN

# NGHROESYPARC,

*Yr hwna hunodd yn yr Arglwydd, Ebrill, 11eg, 1849. Wedi bod dros 56 mlynedd yn aelod diargyhoedd o gyfundeb y Bedyddwyr.*

"Ac mi a glywais lef o'r nef, yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, Gwyn fyd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysbryd, fel y gorphwysont oddiwrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt."

JOHN DAFYDD, PENTYRCH, A'I CANT.

1 Pan ddaeth y newydd hwn,
Myfyrio wnes fel hyn,
Am Dafydd John fy anwyl frawd,
Ei fod ef wedi myn'd,
I'r byd a'i enw cartre'r saint
I feddu braint y plant,
Mewn cerbyd brâf o gariad Crist,
I orphwys gydâ'r saint.

X205310620

2 Bu yma ar y llawr,
Flyneddoedd aml ri',
Yn filwr da i Iesu Grist,
Yn gwisgo'r arfau cu;
Dysgu ereill fydda'i waith—
Fe hoffai hyn bob awr,
Gwylied a gweddio'n daer,
O flaen yr orsedd fawr.

3 Dafydd ble'r est ti,
I maes o'n gafael ni?
Gyfaill mad rho' i mi glyw,
Beth yw dy helynt di?
Mi es i dŷ fy Nhad,
Ar hyd rhinweddau'r gwa'd,
Mi ganaf mwy am farwol glwy',
Mi ddysgais iaith y wlad.

4 Gwasnaethodd yn Nghroesparc,
Yn ffyddlon gydà charc,
Gan anog pawb i wylio'r pyrth,
Rhag ofn brathai'r sarff;
Ar bwys yr arch fe gafodd barch,
Yn selog yn ei swydd,
Yn ddiacon da, gwnaeth ei waith,
Canmolwn ef yn rhwydd.

5 Er maint ei ddefnydd ef,
Daeth angeu cryf a'i gledd,

W1 13,559.

Yn llym ei fin i dori'r dyn
I lawr i waelod bedd ;
O ran ei gorff mae yn y pridd,
A'r ysbryd gydâ Duw,
Yn meddu ar y gwynfyd pur,
Ddymunodd ynddo fyw.

6 Fel mamaeth idd eu phlant,
Bu ef yn eglwys Dduw,
Yn porthi'r praidd â didwyll laeth,
Dan nawdd a gras ei Dduw ;
Rhodd gyngor da mewn bywyd hardd,
Dilynwn ninau 'i ôl,
Mewn duwiol daith gwnawn ein gwaith—
Mae Dafydd wrth ei fodd.

7 Rhyw Sabboth gydâ ni,
Yn Penuel fe fu,
Darllenai'r gair am Fachgen Mair,
Yn troi y dŵr yn win ;
Yr oedd yn dda dan Ysbryd Duw,
Rhown foliant am y gwaith,
Mae'n canu'n bêr i'n Harglwydd nêr,
I dragywyddoldeb maith.

8 Mae galar gydâ ni,
Gwaith colli un mor gu ;
Nac wylwch ddim am beth fel hyn,
Mae ef yn canu fry,

Uwchlaw y sêr y'ngwlad yr hedd,
Yn siriol gydâ'r saint,
Trwy waed yr Oen fu ar y pren,
Daeth ef i feddu'r fraint.

9 Uchel iawn yw ei fraint,
Gẁr ffyddlon fu'n y ffydd,
Mae yn meddu teyrnas Dduw,
A byw yn ngolau'r dydd,
Y'ngwres yr haul tu draw i'r bedd,
I maes o gyraedd haint,
Heb bechod idd ei flino mwy,
Caiff orphwys gydâ'r saint.

10 Dymunwn idd ei blant,
I feddu dwyfol ras,
Ofni Duw tra b'ont hwy byw
Ar wyneb daear lâs;
Ceisiwch ef—mae idd ei gael,
O diolch byth am hyn,
Mae Duw yn rhâd yn iawn ei Fab,
Yn rhoddi fel y myn.

CAERDYDD: ARGRAFFWYD GAN W. OWEN.